

## LLYWODRAETH CYMRU

### Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Iechyd Planhigion ac Organeddau a Addaswyd yn Enetig) (Cymru) 2020

#### Hysbysiad Iechyd Planhigion (*Phytophthora pluvialis*) (Ardal a Ddarnodir 5)

Mae arolygydd Iechyd planhigion a benodwyd gan Weinidogion Cymru at ddibenion Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Iechyd Planhigion ac Organeddau a Addaswyd yn Enetig) (Cymru) 2020 ("y Rheoliadau") wedi cadarnhau presenoldeb *Phytophthora pluvialis* ar fangre yn siroedd Gwynedd.

Drwy arfer y pwerau a roddir gan reoliad 17(2) o'r Rheoliadau, rhoddaf yr hysbysiad a ganlyn:

#### Enwi

1. Enw'r hysbysiad hwn yw Hysbysiad Iechyd Planhigion (*Phytophthora pluvialis* (Cymru), a
2. Gan gael effaith o 21 Ebrill 2022 ymlaen, mae'n dirymu ac yn disodli'r Hysbysiad Iechyd Planhigion (*Phytophthora pluvialis*) (Ardal a Ddarnodir 1) a wnaed ar 14 Mawrth 2022.

#### Ardal a ddarnodir

3. Yn unol â rheoliad 17(2)(a) o'r Rheoliadau, mae'r ardal yn siroedd Gwynedd o fewn y ffin a ddisgrifir yn Atodiad 1, ac a ddangosir ar y map yn Atodiad 2 ar wefan Llywodraeth Cymru, wedi ei darnodi.

#### Cyfyngu ar gwympo deunydd sy'n dueddol o gael plâu neu glefydau heb hysbysiad ymlaen llaw

4. Yn unol â rheoliad 17(2)(b) y Rheoliadau, mae'n rhaid i berson hysbysu'r Comisiwn Coedwigaeth ymlaen llaw yn ysgrifenedig ynghylch eu bwriad i gwmpo unrhyw ddeunydd sy'n dueddol o gael plâu neu glefydau o fewn yr ardal a ddarnodir.

#### Gwahardd symud deunydd sy'n dueddol o gael plâu neu glefydau

5. Yn unol â rheoliad 17(2)(b) o'r Rheoliadau, ni chaiff unrhyw berson symud unrhyw ddeunydd perthnasol sy'n dueddol o gael plâu neu glefydau o'r ardal a ddarnodir a bennir yn yr hysbysiad hwn, oni bai ei fod wedi ei awdurdodi'n ysgrifenedig gan arolygydd Iechyd Planhigion.

#### Deunydd perthnasol sy'n dueddol o gael plâu neu glefydau

6. At ddibenion paragraffau 4 a 5 uchod, ystyr deunydd perthnasol sy'n dueddol o gael plâu neu glefydau yw:

(a) y deunydd a ganlyn sydd wedi tarddu o fewn yr ardal a ddarnodir –

- i. unrhyw bren o'r genws **Tsuga, Pseudotsuga, Pinus a Notholithocarpus**, ac eithrio ar ffurf deunydd pecynnu pren neu bacin;
- ii. unrhyw risgl ynysedig o'r genws **Tsuga, Pseudotsuga, Pinus a Notholithocarpus**;
- iii. unrhyw goed o'r genws **Tsuga, Pseudotsuga, Pinus a Notholithocarpus** gan gynnwys coed a gwmpwyd neu goed a syrthiodd, ffrwythau, hadau, dail neu ddeiliant.

(b) unrhyw blanhigion ar gyfer plannu'r genws **Tsuga, Pseudotsuga, Pinus a Notholithocarpus** sydd wedi tarddu neu sy'n byw o fewn yr ardal a ddarnodir.

### Cychwyn y gwaharddiad

7. Mae'r gwaharddiad a nodir yn yr hysbysiad hwn yn gymwys ar **21 Ebrill 2022** ac ar ôl hynny hyd nes y rhoddir hysbysiad pellach.

Llofnodwyd



Ceri Witchard, Prif Swyddog Iechyd Planhigion Cymru

Llywodraeth Cymru, **12 Ebrill 2022**

## ATODIAD 1

### Disgrifiad o faint yr ardal a ddarnodir

Mae'r ffin yn dechrau yn SH776167 ac mae'r ffin yn dilyn yr A470 i'r gogledd-orllewin drwy Ddolgellau i'r A496 yn SH715194.

Mae'r ffin yn rhedeg i'r gorllewin ar hyd yr A496 am 29.1km drwy Bontddu, Abermaw a Llanbedr tan SH578304. O SH578304 mae'r ffin yn ymuno â'r B4573 am 6.1km gan deithio drwy Harlech ac ail-ymuno â'r A496 yn SH607349.

O SH60739, dilynir yr A496 i'r dwyrain am 9.2km i SH66404. Yna mae'r ffin yn gwyro o'r A496 ac yn rhedeg ar hyd y ffordd ddiddosbarth sy'n mynd tua'r dwyrain i Gellilydan am 2.7km nes cwrdd â'r A487 yn SH687396.

Wrth y gyffordd, mae'r ffin yn parhau i'r de wrth ochr llyn Llyn Trawsfynydd ar yr A470 am 5.3km tan y gyffordd yn SH710355. O'r gyffordd mae'r ffin yn gwyro i'r dwyrain ar hyd yr A4212 tuag at Y Bala. Ar y groesffordd (SH928361) mae'r ffin yn parhau i'r de-ddwyrain ar y B4391 am 33.5km gan groesi llyn Llyn Tegid, drwy Llangynog a Phenybontfawr, gan uno i'r A490 yn SJ33198. Mae'r A490 yn parhau trwy Lanfyllin a Bwlch-y-cibau am 7.4km i gyffordd yr A495 yn SJ192168.

Yn dilyn yr A495 i'r de-orllewin am 14.8km mae'r ffin yn cyrraedd cyffordd i'r A458 yn SJ084078. Gan ymadael i'r gorllewin mae'r ffin yn dilyn yr A458 am 25.7km nes iddo gyrraedd yr A470 yn SH862125. Mae'r ffin yn parhau i'r gorllewin wrth y gylchfan ar hyd y ffordd ddiddosbarth sy'n mynd tua'r de i Aberangell am 4.5km. Mae Afon Dyfi yn rhedeg yn gyfochrog â dwyrain y ffin. Yn SH845099 mae croesffordd a phont, mae'r ffin yn parhau i'r de ar y ffordd ddiddosbarth am 7.3km.

Yna, mae'r ffordd ddiddosbarth yn cwrdd â'r B4404 yn SH809043. Mae'r ffin yn dilyn y B4404 i gyfeiriad y de-orllewin am 6.5km nes ei bod yn cwrdd â'r A487 yn SH751023.

O SH751023 mae'n dilyn yr A487 tua'r Gogledd tuag at Ddolgellau am 18.2km gan fynd heibio, Esgairgeiliog Ceinws, Corris, Corris Uchaf a Minfordd nes bod yr A487 yn cwrdd â'r A470 yn SH766167.